



**VOLCANO**



notes from the interior

## NOTES FROM THE INTERIOR

Prosiect *Encounters Unknown* gan Volcano Theatre

### TASG #1 THE CHAIRS

"Pan ddaw'r Ymerawdwr i'n gweld, cofiwch yr abswrdd."

Gofynnais i'r actorion edrych ar [THE CHAIRS GAN IONESCO](#). Mae'n destun ar faes llafur nifer o fyfyrwyr.

Dychmygaf fod gofyn i fyfyrwyr ddadansoddi rhannau o destunau gan roi ystyriaeth i olau, cyfarwyddeb, y set a'r perfformiad. Gofynnais i'r actorion ffilmio eu hunain. Gweithredu ar ysbrydoliaeth am ddwy funud, llai efallai. Deuawd yw *The Chairs*. Waeth iddo fod yn fonolog. Rydym ar ein pen ein hunain yn yr ystafell hyd yn oed pan ydym yn ddau. Rhaid i ni ymdrin â'n hunain - ein brwydrau, breuddwydion ac ofnau..

[GWYLIWCH Y VIDEO](#)

### TASG #2 NORA YN Y FFENESTR

Mae Tasg #2 yn ein hatgoffa ni o un o'r awduron a sylfaenodd ein theatr ar sail cymeriadau - Henrik Ibsen. Cefais fy nenu yn benodol gan lond llaw o bethau:

1. [DARLUN O FERCH YN Y FFENESTR GAN VILHELM HAMMERSHØJ](#), gan iddo fynegi'r hyn yr ydym yn ei brofi ar hyn o bryd - sef edrych allan... a oedd yn gwneud i mi deimlo fel y dylem ddod ag ychydig o'r tu allan i'n lleoliad domestig...
2. Ond yna ceir [A DOLL'S HOUSE](#), yn benodol y disgrifiad llwyfan agoriadol gan Ibsen, sydd wedi'i ysgrifennu'n hyfryd ond eto'n aflan yn ei fanylion o natur ffetis. Mae'r testun hefyd yn awgrymu goruchafiaeth go iawn y byd allanol y mae'r 'ferch yn y ffenestr' yn edrych arni gyda'r fath nerfuswydd.
3. Mae tudalennau cyntaf Act Un, yn ogystal â pherthynas Nora a Helmer, yn rhyfeddol o ran dod â'r tu allan i mewn - gyda'r holl adar sy'n canu a'r gwiwerod sy'n gweithio i gaethiwo Nora.

[GWYLIWCH Y FIDEO](#)

### TASG #3 CONVIRALITY

Mae testun *Cool Memories II* gan Baudrillard nad yw'n destun theatraidd, ond yn athroniaeth Ffrengig ar ei fwyaf gwallgof. Fe'i hysgrifennwyd o leiaf 30 mlynedd yn ôl. Mae'n torri tir newydd i raddau helaeth er bod canolbwynt y wybodaeth yn parhau i fod yn gyson. Cymerwch yr hyn a fynnwch oddi wrtho, torrwch, ychwanegwch, dilëwch, ailadroddwch - un peth y gallwn fod yn siŵr ohono yw na fyddai'r awdur yn disgwyl dim llai.

[COOL MEMORIES II - JEAN BAUDRILLARD](#)

[GWYLIWCH Y FIDEO](#)

### TASG #4 ECSTASI LLE

Yr wythnos hon rydym yn rhoi ecstasi iaith o'r neilltu (os nad cyfathrebu). Meddyliwch am y ffordd y mae COVID-19 wedi meithrin y cyfle i greu coreograffi o le. Ym mhob man gwelaf bobl yn ymdrin â lle cyhoeddus o fewn y rheolau newydd, ac eto mae pobl dal wrthi'n parhau gyda'r hen normau o'r hyn sy'n gwrtais neu'n dderbyniol, yn herio i weld beth allant lwyddo i'w wneud heb gael eu cosbi.

(Felly, y dasg yw) Cyflwyno'r symudiad newydd hwn (dawns) o le, y byrfyfyr hwn o fod yn bwrpasol ac yn ofnus. (Tybiaf fod yn rhaid i chi) Wneud hyn oddi mewn yn hytrach nag oddi allan, (eto gall rhywun) Ddychmygu bod y lle mewnol bellach yn lle i bobl ymarfer neu hyd yn oed berfformio'r coreograffi newydd hwn ac mae'n lle hefyd ble y llwyddom i ddatblygu, mewnoli neu rannu rheolau a rennir i wneud ein bywydau yn fwy goddefadwy.

Dim geiriau.

[GWYLIWCH Y FIDEO](#)



## TASG #5 YMRWYMIAD

Sut deimlad yw e?

Mae hon yn ymwneud â (natur) Ymrwymiad.

Felly, yn wahanol i'r pwyslais blaenorol ar le, hoffwn i ni y tro hwn ystyried sut mae'r cyfyngiadau gorfodol hyn yn ein gwahodd i feddwl am yr hyn yr ydym wedi ei ymrwymo iddo a phaham, efallai, ein bod yn methu mor aml yn ein hymdrechion. Ai dyma'r amser ar gyfer / o adfywio?

Dim symudiad!

[GWYLIWCH Y FIDEO](#)

## TASG #6 PERFFORMIADAU YN Y DYFODOL

Roeddwn yn meddwl am y math o sioe y gallwn ei pherfformio/chyflawni pan fydd mymryn o normalrwydd yn dychwelyd i fywyd dinesig – pan, ac os bydd pobl yn ymgynnull mewn manau cyhoeddus i wyllo beth bynnag fyddwn yn ei arddangos....

Meddyliais, efallai y byddai'n werthfawr clywed eich barn ar agoriad neu frawddeg agoriadol ddelfrydol, y grefft o gychwyn neu ddatblygu tensiwn neu lawenydd neu bleser ymhlith y cyhoedd sy'n gwyllo. Neu, a ddylem ddychwelyd at drasiedi, neu'r manylder meicro a roddir i'r bywyd dan sylw?

Felly, rwy'n gofyn i chi gyflwyno eich syniadau am yr olygfa berffaith yr hoffech chi ei gweld, neu yr hoffech i eraill ei gweld ar ôl i'r pandemig ddiflannu – beth hoffech ei weld yn y dyfodol?

Gallech feddwl eich bod yn ei berfformio, neu eich bod yn ei gyflwyno i eraill ei berfformio..

[GWYLIWCH Y FIDEO](#)

## TASG #7 FFEITHIAU A GWERTHOEDD

Gan newid y dôn ryw fymryn, gallech feddwl fy mod yn meddwl am y nofel/ffilm Agatha Christie '4:50 from Paddington', ac yn enwedig y foment pan mae Elspeth yn gweld merch yn cael ei thagu a'i lladd ar drên cyfagos. Mae'n digwydd yn gyflym iawn – mae ei golwg yn aneglur ac mae hi newydd ddeffro o gwsg dwfn, rhithbair. Mae hi'n adrodd beth mae hi wedi'i weld, ac nid oes neb (ar wahân i'w ffrind Miss Marple) yn ei chredu – yn sicr nid yr heddlu. Mae hi'n dechrau amau ei hun ac yn dweud wrth ei ffrind ei bod, â'i phen yn y gwynt, wedi rhoi siwgr ar ei chiperiaid yr wythnos o'r blaen...

Mae'r llofruddiaeth, a'r olygfa ohoni, yn frawychus ac ymddengys iddi ddigwydd heb rybudd, rheswm na sylfaen gadarn o unrhyw fath. Mae'n ddigwyddiad, ond ni allwn ei olrhain, ei gyfiawnhau, na chanfod sut y daeth i fodolaeth – rydym yn dechrau amau na wnaethom erioed ei weld na chael profiad ohono.

Meddyliais fod yr un naws yn perthyn i'r cyfnod o dan gyfyngiadau, i raddau. Wrth i'r dyddiau fynd heibio, bron y gallwn anghofio pam ein bod yn gwneud hyn... A yw hyn yn ddigwyddiad yn ein bywydau, neu a ydym fel Elspeth ar y trên hwnnw - yn craffu'n syfrdan drwy'r mwg a'r gwydr budr?

Nid wyf am i chi fod yn un o arwresau nofel Christie (oni bai eich bod yn teimlo'r ysfa), ond yn hytrach, hoffwn i chi barhau i ystyried perfformiad, ond gyda'r ymdeimlad ansicr o amheuaeth fel mae'r uchod yn ceisio ei gyfleu...

Ai hwn yw Digwyddiad Mawr ein Bywydau – newid yn y ffordd y mae realiti yn ymddangos i ni neu drawsnewidiad ysgytwol o realiti ei hun...neu ai hunllef ydyw, un y byddwn yn deffro ohoni yn y pen draw?

[GWYLIWCH Y FIDEO](#)





## TASG #8 EDRYCH YN ÔL

Mae tasg yr wythnos hon wedi'i gwreiddio yn yr eirfa wyddonol gyfoes a 'ffeithiau' rydym yn eu mwynhau. Mae'r iaith hon wedi fy atgoffa o'r awduron iwtopaidd mawr Saint-Simon, Robert Owen a Charles Fourier – roedd pob un ohonynt yn gweld eu hunain fel arsylwyr craff o ymddygiad dynol. Roedd Newton yn arwr iddynt. Yn fwy diweddar, mae hyn wedi gwneud i mi feddwl am B.F. Skinner, seicolegydd ymddygiad a ysgrifennodd lyfr adnabyddus, *Walden Two*, yn 1948. Roedd Skinner yn credu nad oedd llawer o gyfyngiadau i'n gallu i addasu a newid ymddygiad dynol. Weithiau, cyfeiriwyd at y peirianwaith oedd yn allweddol i'r newidiadau hyn fel 'Not Licking Your Lollipop' - roedd yn rhaid i werthfawrogiad gohiriedig ac atgyfnerthiad cadarnhaol gychwyn gyda phlant ifanc iawn, ac wedyn gellid adeiladu cymdeithas gyfan, fel y cynigiodd Skinner yn ei lyfr.

Nid yw ein cymdeithas wedi bod yn or-hoff o'r ochr ohiriedig ers peth amser, ond bellach, ymddengys y gall hyn fod yn bwysig, ac mae gwreiddiau'r syniadau hyn i'w gweld mewn gwyddoniaeth a meddylfryd iwtopaidd yn fwy cyffredinol.

Nid cotiau labordy sydd gennyf dan sylw.

### [GWYLIWCH Y FIDEO](#)

## TASG #9 OND SUT YDYCH CHI?

Y tro hwn, gofynnwyd i'r actorion ymgynghori cyn recordio eu hatebion.

Gan fod mwy o arwyddocâd i'r 'bob dydd' yn ystod y Cyfyngiadau, pendronais a oedd hi'n amser cychwyn gyda chwestiynau cyffredin megis 'Sut ydych chi wedi ymdopi?' neu 'Sut ydych chi?'

Nid oes rhaid i chi ateb y cwestiynau'n onest. Efallai y byddwch yn ateb o safbwynt cymeriad ffugiol. Efallai byddant yn ddigymell neu wedi'u hymarfer. Efallai byddant yn cyffwrdd ar y gwir neu gelwydd...

### [GWYLIWCH Y FIDEO](#)

## TASK #10 10 PLESIO FY HUN

Mwynheais agwedd gadarnhaol a hunan-amheuaeth fanig yr wythnos ddiwethaf yn arw. Parhad o hynny yw'r wythnos hon i raddau.

Cofiais am yr hen gerdd a'r bardd Hugo Williams, oedd â llyfr (ddegawdau'n ôl) o'r enw *Self-Portrait with a Slide*. Roedd mewn cerdd o'r enw '[When I Grow Up](#)'. Heb amheuaeth, cerdd fach ddoniol oedd hi i fod, ond gwnaeth i mi feddwl, tu hwnt i arswyd torfol COVID-19, hwyrach y byddwn yn crwydro i amser y dyfodol fel unigolion...Sut ydym eisiau bod pan fyddwn wedi tyfu ac aeddfedu? Siawns ein bod wedi aeddfedu bellach...?

Mae Williams yn dychmygu bod yn foel ac yn drewi o biso, gyda photel o fwrgwyn o dan ei wely. Hefyd, mae'n rhagweld ei hun yn syrthio ar y stryd, yn cael tic nerfusurwydd, ac yn molestu bachgen ifanc sy'n mynd ar ei nerfau...

Beth ydych chi'n ei ddychmygu? Cyflwynwch sylwadau os ydych yn gallu.

### [GWYLIWCH Y FIDEO](#)



## TASG #11 ADDEWIDION

Does dim brîff yr wythnos hon! Mae pob un ohonoch yn ddigon creadigol i greu eich dwy funud o gyffes, poen, pleser, llofruddiaeth, siom neu wyladwriaeth gyffredin. Efallai y byddwch yn meddwl amdano fel deialog rhyngoch chi, os yw hynny yn helpu, ac os oes gennych amser i gael sgwrs â'ch gilydd.

[GWYLIWCH Y VIDEO](#)

## TASG #12 Y WLADWRIAETH A'R LLEOLIAD

Rwyf yn dal i feddwl am ddau beth. Yn gyntaf, beth yw'r Wladwriaeth? Endid grym a thrais? Cynrychiolaeth o'r ewyllys cyffredinol? Rhywbeth dirgel yr ydym yn ei gymeradwyo er mwyn cynnal ein diogelwch? Un rhan o'r contract cymdeithasol? A allwch ddweud wrthym beth yw'r Wladwriaeth yn eich barn chi a beth yw ei phwrpas? A yw'r Wladwriaeth yw destun ofn, neu a ydyw'n rhywbeth sy'n sicrhau gwarant i'n rhyddid?

Yn ail, neu fel opsiwn amgen...a allwch baentio llun o leoliad yr hoffech fynd neu ddychwelyd iddo, pan fydd hyn i gyd drosodd? Gallai hwn fod yn lleoliad yr ydych wedi bod ynddo neu yr hoffech fynd iddo. Tybiaf y gallai fod yn ffuglennol, ond rydym angen gallu synhwyro lliwiau a chyfuchliniau'r lleoliad. Mae angen i ni adnabod y lleoliad, a mynd yno hefyd. Gallai'r lle fod y tu mewn, neu'n gyrchfan y tu allan.

Gallech wneud y ddau - Y Wladwriaeth a'r Lleoliad- neu dim ond un.

[GWYLIWCH Y FIDEO](#)



[MAE'R FIDEOS I GYD YN YMDDANGOS YMA](#)

Tasgau gan **PAUL DAVIES**, Cyfarwyddwr Artistig  
Yn Cyflwyno **CHRISTOPHER ELSON**, **NEAL MCWILLIAMS**,  
**MAIRI PHILLIPS**, **REBECCA SMITH WILLIAMS**  
& **MANON WILKINSON**

Gydag ymddangosiad gwestai arbennig gan **PEGGY**  
Golygydd Fideo **VICTORIA BOOBYER**  
Golygydd Testun **CLAUDINE CONWAY**  
Cyfieithu **BLA**

[www.volcanotheatre.co.uk](http://www.volcanotheatre.co.uk)

